Gweithdy undydd:
DYDDIADURA
Plas Tan y Bwlch
Sadwrn Mai 26ain, 2012

Rydym yn ddiolchgar i Gymdeithas Addysg y Gweithwyr am nawdd tuag at y gweithdy hwn

- **Ydych chi'n cadw dyddiadur?**
- **Oes gennych chi ddiddordeb mewn hen ddyddiaduron a llythyrau aelodau eich teulu (neu deuloedd pobl eraill!)?**
- **Ydych chi'n cofnodi'r tywydd?**
- **Ydych chi'n mwynhau'r dyddiaduron ar wefan Llên Natur?**
- **A hoffech ymuno a'r criw sydd wrthi yn mewnbynnu cofnodion dyddiaduron eisoes?**

Os gallwch ateb YDWYF i o leiaf un o'r cwestiynau hyn – a bod ganddoch gyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r we - dyma'r cwrs i chi!

Bu Prosiect Llên Natur (Cymdeithas Edward Llwyd) ar droed ers pedair blynedd bellach ac mae'r TYWYDDIADUR ("dyddiadur" mawr o gofnodion amgylcheddol) sydd ar wefan www.llennatur.com wedi cyrraedd 64,000 o gofnodion – ac yn tyfu'n ddyddiol.

Seiliwyd y TYWYDDIADUR hwn ar ddyddiaduron, llythyrau a ffynnonellau eraill sy'n ymestyn dros y 3 canrif a mwy. Mae'r cofnodion yn ymwneud â'r tywydd yn bennaf, a hefyd ymateb byd natur i'r tymhorau (e.e. amseriad blodeuo ac adar yn cyrraedd) a gorchwylion amaethyddol (e.e. amser hau a medi).

Mae'r cwbwl yn rhoi darlun manwl inni o amrywiadau'r tywydd a'r tymhorau dros y blynyddoedd ac fe'i cydnebir bellach fel adnodd pwysig i'r rhai sy'n astudio hanes newid yr hinsawdd.

I Gofrestru, gyrrwch siec o £5, (yn daladwy i Llên Natur) gyda'ch enw, cyfeiriad ac ebost i:
Ifor Williams, Gwelfa, Llanfaglan, Caernarfon LL54 5RD

Cost yn cynnwys lluniaeth,a brysiwch..dim ond 15 o lefydd ar gael!)
(Bydd cymorth gyda chostau teithio o 20c y filltir i rai sydd yn teithio 50 milltir neu ragor ddwyffordd)

Rhaglen y dydd

10.00 Cofrestru a 'phaned
10.30 Cyflwyniad i waith Prosiect Llên Natur
a phwrpas cofnodi dyddiaduron (DB a TE)
11.00 Sesiwn 1: MEWNBYNNU I'R GRONFA
Sesiwn gyfrifiadurol i ddangos:
- hyd a lled gwefan Llên Natur.
- mewnbynnu dyddiaduron go iawn i'r TYWYDDIADUR.

Byddwn yn dysgu egwyddorion sylfaenol megis:
- dewis beth i'w gynnwys
- trawsgrifo a mewnbynnu cywir mewn fformat safonol
- Gwers ar sut i ddelio gyda llawysgrifen aneglur*

13.00 Cinio
1400 Sesiwn 2: DEHONGLI'R TYWYDDIADUR
- CHWILIO a THREFNU cofnodion.
- DEWIS themau yn seiliedig ar dermau meteorolegol, ffenoleg, elfennau cymdeithasol a geirfaol ayb.
- Creu NARATIFAU newydd o'r dystiolaeth.

1600 Paned ac adref

*• bydd Sue Walton, sydd dan gontract i ddigideiddio cofnodion William Bulkeley, Brynddu, Môn, yn arwain y sesiwn.
• Mi fydd samplau o ddyddiaduron ar gael ond da o beth fyddai i chithau ddod â'ch dyddiaduron eich hunain.